
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Polisi Bwyd Cynaliadwy

**Fersiwn 2.0**

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Pwrpas ........ 2
3. Cwmpas ........ 2
4. Ymrwymiadau Polisi: ........ 2
5. Monitro ........ 5
6. Cyfathrebu ........ 5
7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill: ........ 5
8. Goblygiadau o ran Adnoddau ........ 6
9. Asesiad Effaith ........ 6
10. Rheoli fersiynau dogfennau ........ 7

## 1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (YDDS) yn cydnabod nid yn unig ei chyfrifoldeb i ddarparu bwyd iach a chynaliadwy i'w chwsmeriaid, ond i sicrhau ei bod yn cynnal ei gweithgareddau caffael mewn modd cyfrifol yn amgylcheddol, yn foesegol ac yn gymdeithasol, gan ddylanwadu ar gynhyrchu a bwyta bwyd cynaliadwy ar draws y gymdogaeth ehangach.

Ceisia YDDS, lle bo'n briodol, gefnogi busnesau lleol wrth gael gafael ar a chaffael ei chynnyrch a'i gwasanaethau, gan weithio gyda'i chyflenwyr i leihau effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol negyddol y cynnyrch a'r gwasanaethau a ddarparant.

## 2. Pwrpas

Datblygwyd y Polisi Bwyd Cynaliadwy hwn i leihau effaith amgylcheddol negyddol y gwasanaethau arlwyo yn YDDS trwy gamau gweithredu pwrpasol a bennwyd gan adran Arlwyo'r Brifysgol. Mae'r polisi'n berthnasol i safleoedd arlwyo'r Brifysgol ar gampysau Abertawe, Caerfyrddin a Llambed.

## 3. Cwmpas

Cwmpas y Polisi yw:

- Darparu gwasanaeth arlwyo a lletygarwch o safon uchel.
- Mynd ati'n weithredol i hyrwyddo a chael gafael ar fwyd a chynnyrch eraill yn lleol ac yn dymhorol er mwyn cefnogi'r economi leol a lleihau effeithiau amgylcheddol.
- Hyrwyddo'r defnydd o wyau maes a llaeth ffres organig, lle bo modd, yn unol â'n hymrwymiad i'r Nod Arlwyo "Bwyd am Oes".
- Mynd ati'n weithredol i hyrwyddo lles anifeiliaid mewn modd cyfrifol trwy gaffael cynnyrch anifeiliaid y cynllun Tractor Coch.
- Lleihau faint o fwydydd sy'n deillio o anifeiliaid (cig, cynnyrch llaeth ac wyau) a weinir, gan fod ffermio da byw yn cael dylanwad sylweddol ar Newid yn yr Hinsawdd.
- Hyrwyddo prydau llawn ffrwythau, llysiau, codlysiau a chnau, a;
- Lle bynnag y bo modd, gweithio gyda chyflenwyr i sicrhau bod y cynnyrch morol a ddefnyddir yn dod o stociau cynaliadwy a bod hynny wedi'i gadarnhau gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol.
- Defnyddio cynnyrch Masnach Deg lle bo'n briodol, cefnogi Pythefnos Masnach Deg a darparu gwybodaeth a chynnyrch ar hyd y flwyddyn sy'n cefnogi mentrau Masnach Deg.
- Gweithio gyda'n cyflenwyr i wella'r cynnyrch iach a ddarperir a lleihau effaith amgylcheddol eu cynnyrch a'u dulliau cyflenwi.

## 4. Ymrwymiadau Polisi:

### 4. 1. Defnyddio cynwysyddion lleol sydd ar gael yn dymhorol:

- Cynllunio bwydlenni bob tymor i adlewyrchu bwyd tymhorol.
- Gweithio gyda chyflenwyr i annog prynu o fannau cyfagos er mwyn lleihau'r milltiroedd wrth gludo bwyd.
- Hyrwyddo a chael gafael ar gynnyrch o Gymru a, lle bo modd, de-orllewin a chanolbarth Cymru, gan sicrhau'r gwerth gorau am arian.

- Sicrhau bod Busnesau Bach a Chanolig, cyflenwyr lleol a rhanbarthol, yn cael cyfle cyfartal i wneud cais am gytundebau cyflenwi trwy broses dendro grŵp arlwyo HEPCW (Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru).

**4.2 Nodi bwyd o systemau ffermio sy'n lleihau niwed i'r amgylchedd:**

- Defnyddio polisïau caffael sy'n adlewyrchu'r defnydd o ddarnau cost-effeithiol o gig i hybu lles anifeiliaid mewn modd cyfrifol.
- Lleihau faint o fwydydd sy'n deillio o anifeiliaid (cig, cynnyrch llaeth ac wyau) a weinir, gan fod ffermio da byw yn cael dylanwad sylweddol ar Newid yn yr Hinsawdd.
- Hyrwyddo prydau llawn ffrwythau, llysiau, codlysiau a chnau a lle be modd caffael cynnyrch y cynllun Tractor Coch.

**4.3 Lleihau'r defnydd o rywogaethau pysgod a ddynodwyd gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol fel y rhai mwyaf "mewn perygl":**

- Llunnir bwydlenni ar gyfer digwyddiadau'r Brifysgol ar sail y pysgod sydd ar gael mewn dyfroedd lleol.
- Lle bynnag y bo modd, gweithio gyda chyflenwyr i sicrhau bod y cynnyrch morol a ddefnyddir yn dod o stociau cynaliadwy a bod hynny wedi'i gadarnhau gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol.
- Defnyddio rhywogaethau amrywiol o bysgod i leihau'r pwysau ar stociau sensitif.
- Hyrwyddo pysgod sydd ar restr "pysgod i'w bwyta" y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn unig.
- Bydd gwasanaethau arlwyo a lletygarwch y Brifysgol yn hyrwyddo pysgod a bwydydd môr cynaliadwy.

**4. 4. Ffocws ar Fasnach Deg:**

- Nodi cyfleoedd i gynyddu amrywiaeth y Brifysgol o gynnyrch Masnach Deg.
- Parhau i hyrwyddo Pythefnos Masnach Deg a chyflwyno un ymgyrch bob tymor i hyrwyddo gweithgareddau Masnach Deg.

**4. 5. Hyrwyddo Iechyd a Lles:**

- Cyflwyno 'Diwrnod Byw'n Iach'.
- Defnyddio dulliau coginio sy'n hyrwyddo lleihau halen, braster, olewau ac ychwanegion artiffisial.
- Darparu amrywiaeth o ffrwythau, llysiau a saladau bob amser.
- Lleihau'r defnydd o gynnyrch wedi'u coginio a'u hoeri, a phrydau parod.
- Lleihau'r defnydd o olewau llysiau hydrogenedig ac ychwanegion artiffisial.
- Hyrwyddo'r defnydd o fara a phasta gwenith cyfan a reis brown, a'u cynnwys mewn bwydlenni.

**4. 6. Hyrwyddo mentrau sy'n annog y defnydd o ddŵr tap:**

- Sicrhau bod dŵr tap ar gael ym mhob safle arlwyo.
- Annog a hyrwyddo'r defnydd o gwpanau y gellir eu hail-ddefnyddio neu'u hailgylchu ar draws y campysau a sicrhau bod dŵr tap ar gael yn hwylus i'r holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr.
- Hyrwyddo'r defnydd o ddŵr tap ar gyfer Cynadleddau a Digwyddiadau.
- Annog peidio â defnyddio dŵr potel yn nigwyddiadau'r Brifysgol.

**4.7 Lleihau Gwastraff ac Ailgylchu:**

- Cyflwyno system gompostio gwastraff bwyd yn y gegin gynhyrchu ganolog.
- Lleihau’r defnydd o eitemau wedi’u pacio’n unigol e.e. siwgr, pupur a halen ac ati.
- Gweithio’n agos â chyflenwyr i leihau'r pecynnu a lleihau amlder y cyflenwadau.
- Defnyddio dulliau i fonitro a lleihau gwastraff bwyd, a pharhau i ailgylchu olew coginio wedi’i ddefnyddio.
- Lle bo modd, lleihau’r defnydd o ddŵr ac ynni wrth baratoi bwyd, coginio a glanhau.

**4. 8. Gwobrau arlwyo:**

- Dal gafael ar achrediadau ac ennill achrediadau pellach o ran safonau amgylcheddol cydnabyddedig e.e. Nodau Arlwyo “Bwyd am Oes”.
- Mae’r Brifysgol wedi adeiladu ar ei llwyddiannau blaenorol, sef pedwar Nod Arlwyo Arian “Bwyd am Oes” ar gyfer ei mannau arlwyo ar draws campysau Caerfyrddin a Llambed. Gan gynnwys campws Abertawe, bellach mae gan y Brifysgol 10 Nod Arlwyo Arian ac un Efydd, yn ogystal â ‘Nod Arlwyo Aur’ am “Ddigwyddiadau” yn y Brifysgol.

**5. Monitro**

Bydd y Brifysgol yn gosod targedau cynaliadwyedd priodol gan ymgynghori â chymuned y Brifysgol ac yn mesur perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt:

- Arolygon cwsmeriaid i’w cynnal yn flynyddol i gael adborth ar fwydlenni, prisiau, ansawdd a dewis.
- Adolygiad blynyddol o bolisïau, yn cynnwys targedau a’u hailasesu, ac adrodd ar gynnydd i’r holl randdeiliaid perthnasol.
- Hyfforddi’r holl staff yn yr amrywiol ardystiadau priodol, arferion coginio iach, arferion paratoi bwyd cynaliadwy, a dulliau monitro gwastraff.

**6. Cyfathrebu**

Er mwyn annog ymhellach gynhyrchu a bwyta bwyd iach a chynaliadwy bydd y Brifysgol yn:

- Cyfathrebu polisi ymwybyddiaeth bwyd y Brifysgol ac ati i ymwelwyr, myfyrwyr, staff a chyflenwyr trwy: Wybodaeth am gynnyrch, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â staff a myfyrwyr i hyrwyddo arferion bwyta iachach.
- Arddangos gwybodaeth am darddiad bwyd, lle gwnaed ymdrechion i gael gafael ar gynwysyddion gan gynhyrchwyr lleol â safonau lles uchel.
- Trwy ddigwyddiadau a hyrwyddiadau arbennig, hyrwyddo’r defnydd o gynnyrch organig, lleol, tymhorol, Masnach Deg a moesegol yn nigwyddiadau’r Brifysgol.

**7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill:**

- Polisi Masnach Deg:
- Polisi Amgylcheddol
- Strategaeth Cynaliadwyedd
- Polisi Caffael Cynaliadwy

Mae’r polisïau hyn ar gael ar safle mewnrwyd Y Drindod Dewiu Sant.

## 8. Goblygiadau o ran Adnoddau

| Goblygiad | Manylion |
|---|---|
| Cyllid | Cynnydd o ran cost prynu cynhyrchion. |
| Staff | Dim wedi'i nodi. |
| Asedau | Dim wedi'i nodi. |
| Partneriaid | Dim wedi'i nodi. |
| Graddfeydd Amser | Adolygir y Polisi hwn yn flynyddol a chynhelir yr adolygiad nesaf rhwng Mai – Hydref 2016. |
| Arweinyddiaeth | Pennaeth Gweithredol Gwasanaethau Busnes sy'n gyfrifol am arwain y polisi hwn. |

## 9. Asesiad Effaith

| Goblygiad | A ystyriwyd effaith (Do/Naddo) | Effaith a Ddynodwyd |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | Do | Nid oes oblygiadau cyfreithiol. |
| Cyfraniad at y Cynllun Strategol | Do | Mae hyn yn cefnogi'r Brifysgol gyda'i chynnydd o ran ymgorffori cynaliadwyedd o fewn bywyd y Brifysgol i staff a myfyrwyr. |
| Dadansoddiad Risg | Do | Gallai'r polisi arwain at gynnydd yn yr oblygiadau o ran adnoddau ariannol yn sgil defnyddio cyflenwyr bwyd lleol yn hytrach na chyflenwyr bwyd cenedlaethol. |
| Cydraddoldeb | Do | Mae'r polisi ar gael mewn fformatau gwahanol i ganiatáu ar gyfer anawsterau gweld neu lefelau deall iaith. |
| Y Gymraeg | Do | Bydd y polisi ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. |
| Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | Do | Bydd y polisi hwn yn ffurfio rhan o'r fframwaith cynaliadwyedd a ddilynir gan y Brifysgol. |
| Cyfathrebu/ y Cyfryngau/ Marchnata | Do | Rhoddir y polisi hwn ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd wedi iddo gael ei adolygu. Yn ogystal cylchredir dolenni'r safleoedd hyn i Weinyddwyr yr amrywiol Gyfadrannau er mwyn eu dosbarthu. |

**Awdur(on) y polisi:**

- Jane Davidson - Pro Is-Ganghellor (Ymgysylltu a Chynaliadwyedd)
- Vandana Sahai - Pennaeth Gweithredol Gwasanaethau Busnes

**10. Rheoli fersiynau dogfennau**

| Fersiwn Rhif: | Rheswm am newid: | Awdur: | Dyddiad newid: |
|---|---|---|---|
| 1 | Llofnodwyd gan yr IG. | JD/VS | 30.06.15 |
| 2 | Dilëwyd y dyddiadau targed o'r ddogfen a'i hailgyflwyno i'w hawdurdodi. | JD/VS | 30.06.15 |
| 2 | Ystyriwyd gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd 30.06.15 – nid oedd angen newid. | | |
| 2 | Ystyriwyd gan yr UDRh 10.09.15 – nid oedd angen newid. | | |
| | Ystyriwyd yn y Pwyllgor Adnoddau – 24.09.15 | | |
| | Ystyriwyd yn y Cyngor – 15.10.15 | | |
| 3 | Diweddaru statws cyfredol y Nodau Arlwyo a'r newidiadau yn nheitlau rôl | | |

**Statws presennol y Polisi:** Cymeradwywyd

**Mae'r Polisi'n berthnasol i:** AU

**Dyddiad cadarnhau:** 18 Tachwedd 2016

**Dyddiad yn effeithiol o:** 18 Tachwedd 2016

**Dyddiad adolygu'r polisi:** 22 Hydref 2017

**I'w gyhoeddi:** ar wefan Y Drindod Dewi Sant.